# SL(6)596 - Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Diwygiodd Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024 (**Rheoliadau 2024**) Reoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 (**Rheoliadau 2006**) er mwyn galluogi'r awdurdodau cymwys sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol i adennill costau yr eir iddynt wrth gynnal yr arolygiadau a'r rheolaethau mewn perthynas â gwyliadwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid.

Diwygiodd Rheoliadau 2024 Reoliadau 2006 hefyd drwy ddiwygio'r ffioedd sydd i'w talu mewn cysylltiad â gwyliadwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid.

Mae Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2025 (**Rheoliadau 2025**) yn cywiro gwall yn y ffioedd diwygiedig a gyflwynwyd gan Reoliadau 2024.

Mae Rheoliadau 2025 yn mewnosod y ffigur cywir yn Atodlen 1 i Reoliadau 2006 ac yn diwygio'r tâl sydd i'w adennill am wyliadwriaeth gweddillion anifeiliaid carngaled[1] o £0.04287 fesul carcas i £0.4287 fesul carcas.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Mae rheoliad 1(3) yn y testun Saesneg yn nodi y bydd Rheoliadau 2025 yn dod i rym ar 28 Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae rheoliad 1(3) yn y testun Cymraeg yn nodi y bydd Rheoliadau 2025 yn dod i rym ar 28 Mawrth 2028.

[1]Mae gan anifeiliaid carngaled (*Solipeds*) un carn anholltog ar bob troed; er enghraifft, ceffylau, asynnod, mulod a bastardiaid mul.

Mae'n amlwg o'r cyd-destun mai'r dyddiad cychwyn cywir yw 28 Mawrth 2025 a bod gwall yn y testun Cymraeg.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn ein hadroddiad ar Reoliadau 2024, gwnaethom ofyn a oedd y ffigur o £0.04287 yn gywir. Ymddengys fod Llywodraeth Cymru yn derbyn nad oedd y ffigur o £0.04287 yn gywir.

Rydym hefyd yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau 2025 yn nodi bod y tâl diwygiedig yn gymwys i wyliadwriaeth sy'n digwydd rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025. Mewn geiriau eraill, ymddengys fod y Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y cywiriad a wneir gan Reoliadau 2025 yn gymwys yn ôl-weithredol.

Yng nghyfraith Cymru a Lloegr, mae rhagdybiaeth nad yw deddfwriaeth yn cael effaith ôl-weithredol. Gellir gwrthbrofi'r rhagdybiaeth honno, ond mae angen geiriau clir iawn (neu ymhlygiad angenrheidiol) i wneud hynny.

Ni allwn weld dim ar wyneb Rheoliadau 2025 sy'n gwrthbrofi'r rhagdybiaeth, ac ni allwn ychwaith ddod o hyd i unrhyw ymhlygiad angenrheidiol sy'n gwrthbrofi'r rhagdybiaeth. Felly, yn ein barn ni, ni fydd y ffigur newydd o £0.4287 yn gymwys yn ôl-weithredol. Yn hytrach, dim ond o'r dyddiad y daw Rheoliadau 2025 i rym y bydd y ffigur newydd yn gymwys (sef 28 Mawrth 2025, yn ein barn ni).

Fodd bynnag, yn y pen draw, ymddengys nad yw'r mater hwn yn broblem oherwydd, yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *4.2 Nid oes unrhyw ladd-dai yng Nghymru sydd wedi'u trwyddedu i ladd anifeiliaid carngaled, felly nid yw'r gwall hwn yn cael effaith niweidiol ar gyflawni'r NRCP [National Residue Control Programme]. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hyn yn ofynnol i gywiro'r llyfr statud, gan sicrhau bod Rheoliadau 2024 yn cael eu gweithredu'n unffurf ledled y DU a fydd yn darparu eglurder i'r VMD [Veterinary Medicines Directorate] a gweithredwyr.*
>
> *7.1 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar unrhyw fusnes, elusen na chorff gwirfoddol gan nad oes unrhyw ladd-dai wedi'u trwyddedu i ladd anifeiliaid carngaled yng Nghymru.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd technegol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod 24 Mawrth 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.